O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2012 Rhif 367 (Cy. 62)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Dryslwyn i Nantgaredig, Sir Gaerfyrddin) (Cyfyngu a Gwahardd Traffig Dros Dro) 2012

| | |
|---|---|
| *Wedi'i wneud* | *14 Chwefror 2012* |
| *Yn dod i rym* | *20 Chwefror 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Llandeilo – Caerfyrddin (A40) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylai traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd gael ei wahardd a'i gyfyngu oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall, **(2)** yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 20 Chwefror 2012. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Dryslwyn i Nantgaredig, Sir Garfyrddin) (Cyfyngu a Gwahardd Traffig Dros Dro) 2012.

**2.**—1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 08.00 o'r gloch ar 20 Chwefror 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu tynnu oddi yno'n derfynol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" *("the length of the trunk road")* yw'r darn o'r gefnffordd yn Sir Gaerfyrddin sy'n ymestyn o bwynt 10 metr i'r gorllewin o bwynt canol ei chyffordd â'r B4297 ar Sgwâr Dryslwyn hyd at bwynt 400 metr i'r gorllewin o bwynt canol ei chyffordd â'r B4310 yn Nantgaredig.